| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **14 Chwefror 2013** |
| TEITL: | **Cofrestr o Adroddiadau Archwilio Allanol** |
| PWRPAS / ARGYMHELLIAD: | **Cyflwyno'r gofrestr er ystyriaeth y Pwyllgor Archwilio** |
| AWDUR: | **Geraint George, Pennaeth Strategol a Gwella** |
| AELOD CABINET: | **Cynghorydd Dyfed Edwards** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Gofynion y Swyddfa Archwilio Cymru erbyn hyn yw bod pob adroddiad archwilio allanol i ddod i sylw'r Pwyllgor Archwilio gyda'r Pwyllgor yn cymeradwyo buddion gweithredu'r argymhellion a nodir gan yr archwilwyr allanol. Bydd hyn yn galluogi'r Pwyllgor Archwilio i gadw trosolwg ar weithredu argymhellion yr adroddiadau a rhoi crynodeb byr i'r Cabinet.

1.2 Mae'r canlynol yn enghreifftiau o adroddiadau archwilio allanol:

Adroddiadau ESTYN, CyMAL, Archifau Cenedlaethol
Adroddiadau gan yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Adroddiadau Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru
Adroddiadau Achlysurol Swyddfa Archwilio neu gan gyrff archwilio eraill

1.3 Gall adroddiadau fod yn llwyr berthnasol i Wynedd neu yn adroddiadau Cenedlaethol sydd gyda chyfeiriad ynddynt at Cyngor Gwynedd

1.4 Yn ychwanegol at hyn, mae'r Pwyllgor Archwilio wedi gofyn inni gadw cofrestr gorfforaethol o adroddiadau archwilio allanol, a'i chyflwyno i'r Pwyllgor bob chwe mis.

1.5 Cyflwynir i'w ystyried Gofrestr o Adroddiadau Archwilwyr Allanol ar wasanaethau'r Cyngor ers 2009 (Atodiad 1) - mae'n gyfuniad o adroddiadau blynyddol, adroddiadau achlysurol ac adroddiadau cenedlaethol ble cyfeirir at Gyngor Gwynedd.

1.6 Nid oes adroddiadau ychwanegol i'w hystyried ar hyn o bryd, ond rwy'n dwyn sylw at yr archwiliadau "byw" sydd wedi eu hamlygu mewn melyn gan y byddant yn rhai i'w hystyried maes o law.

## 2. ARGYMHELLIAD

2.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio nodi cynnwys y Gofrestr o Adroddiadau Archwilio Allanol, a hefyd nodi y bydd angen ystyried y rhai sydd wedi eu hamlygu mewn melyn maes o law.